

Bwrdd yr Ymddiriedolion

26 Mawrth 2021

Cyfarfod Rhithwir

11.00 – 1.30

SESIWN AGORED: 11.00 – 1.30**Presennol:**

Meri Huws (Llywydd dros-dro a Chadeirydd)
Liz Siberry
Gwilym Dyfri Jones
Carl Williams
Mike Cavanagh
Anwen Jones
Hugh Thomas

Lee Yale-Helms (Trysorydd)
Yr Arglwydd Aberdâr
Steve Williams
Gwenllian Lansdown Davies
Quentin Howard
Elin Royles

Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Adnoddau Corfforaethol)
Owain Roberts	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus)

Staff eraill:

Annwen Isaac	Rheolwr Adnoddau Dynol
Emyr Phillips	Pennaeth Cyllid a Menter
Rhian Evans	Uwch Swyddog Gweithredol
Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolion (Cofnodydd)

Sylwedyddion:

Steffan Roberts	CyMAAL
Nia Dafydd	Cyngor Partneriaeth
Doug Jones	Cyngor Partneriaeth

1.1 Croeso a Sylwadau Agoriadol gan y Llywydd

Croesawodd y Llywydd bawb i seithfed cyfarfod rhithwir Bwrdd Ymddiriedolion y Llyfrgell, gan estyn croeso arbennig i Steffan Roberts, CyMAAL, oedd yn mynychu'r cyfarfod yn lle Catrin Hughes.

1.2 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eleri Twynog Humphries.

1.3 Datgan Buddiannau

Datganodd Meri Huws ei bod yn aelod o Gyngor Prifysgol Aberystwyth, Cyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, aelod o Fwrdd VTCT ac o Fwrdd Shelter Cymru.

Datganodd Gwilym Dyfri Jones ei fod yn aelod o staff Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganodd Mike Cavanagh ei fod yn Bennaeth Gwasanaethau Diwylliannol, Hamdden, Twristiaeth a Chofrestru Cyngor Sir Penfro, a'i fod yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Llyfrgell ar brosiect Oriol Glan-yr-Afon, Hwlfordd.

Datganodd Steve Williams ei fod yn aelod o staff Prifysgol Abertawe, yn aelod o WHELP ac yn Ymddiriedolwr ar Fwrdd CILIP.

Datganodd Liz Siberry ei bod yn Ymddiriedolwr o Ymddiriedolaeth Gregynog, yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru, yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant ac yn aelod o Gyngor Cymdeithas y Cymmrodorion.

Datganodd Eleri Twynog Humphries ei bod yn ymwneud â'r Wyl Hanes Cymru i Blant, sy'n cael ei chefnogi gan Adran Addysg y Llyfrgell Genedlaethol.

Datganodd Elin Royles ei bod yn aelod o staff cyflogedig Prifysgol Aberystwyth, a bod ei gŵr yn gweithio i S4C.

Datganodd Anwen Jones ei bod yn aelod o staff cyflogedig Prifysgol Aberystwyth.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

1.4 Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 29 Ionawr 2021 a thrafod materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod agored 29 Ionawr 2021 fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

Materion yn codi o gofnodion 29 Ionawr 2021

Archif Genedlaethol i Gymru - yn dilyn y cyhoeddiad gan y Dirprwy Weinidog ar 11 Rhagfyr 2020, nid oes trafodaethau pellach wedi digwydd rhwng y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru, yn bennaf oherwydd iddynt orfod blaenoriaethu Covid-19. Nododd Steffan Roberts, oherwydd

ei bod yn agosáu at gyfnod cyn etholiad, y byddai hyn yn fater y byddai'n rhaid i'r llywodraeth nesaf fynd i'r afael ag ef.

Pecyn cymorth NCSC ar ddiogeledd seiber- mi fydd y Tîm Gweithredol yn cychwyn ar gyfres o 5 sesiwn hyfforddi ar 19 Ebrill, ac yna byddant yn gosod blaenoriaethau a phennu adnoddau, gan greu swydd newydd yn yr ailstrwythuro i ymdrin â diogeledd seiber, gyda'r bwriad o greu Strategaeth Seiber Ddiogeledd a Chynllun Gweithredu.

1.4.1. Log Gweithredu 29 Ionawr 2020

Pob dim naill ai wedi ei weithredu neu ar waith.

Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth a phenderfyniad

2.1 Adroddiad Cynnydd Pennaeth Ystadau

2.1.1 Adroddiad Dichonoldeb Carbon Niwtral

Croesawyd Mark Stevens, Pennaeth Ystadau i'r cyfarfod i roi diweddariad ar y gwaith ar yr adeilad ac ar gynlluniau datgarboneiddio'r Llyfrgell. Mae'r Llyfrgell wedi comisiynu adroddiad gan arbenigwyr yn y maes i edrych ar yr opsiynau i leihau carbon, ac mae hwnnw wedi ei rannu gyda phapurau'r Bwrdd ar gyfer y cyfarfod heddiw.

Rhaid i'r sector adeiladau ddatgarboneiddio trwy leihau dwyster ynni o leiaf 80% erbyn 2030 a bod yn niwtral yn yr hinsawdd erbyn 2050 os ydym am gyflawni Nod Cytundeb Paris o gadw cynhesu byd-eang i 1.5C yn uwch na'r lefelau cyn-ddiwydiannol. Er mwyn llwyddo, o'i ran, rhaid i Lyfrgell Genedlaethol Cymru weithredu polisi adeiladau cynaliadwy uchelgeisiol sy'n denu'r buddsoddiad angenrheidiol i yrru'r trawsnewidiad i sefydliad carbon niwtral. Sylfaen polisi o'r fath yw un i leihau'r galw am ynni ac allyriadau CO₂ cysylltiedig, gan gynyddu cynhyrchiant ynni ar yr un pryd.

Nwy a thrydan yw'r prif ffynonellau o ddefnydd carbon yn yr adeilad, ac er mwyn mynd i'r afael ag achos sylfaenol y defnydd o ynni, bydd angen buddsoddi yn yr adeilad. Mae'r Llyfrgell yn defnyddio'r meintiau ynni canlynol;

- 2.6M kwh o drydan yn costio £320K y flwyddyn
- 3.5M kwh o nwy yn costio £91K y flwyddyn

Ar gyfer trydan, mae hyn yn dangos tuedd ar i lawr ers 2017, ond yn gwastatáu dros y 12 mis diwethaf. Mae'r defnydd yn uwch nag yr oedd yn 2015 ac nid oes rheswm clir dros hyn. Fodd bynnag, amcangyfrifir bod mwy na hanner y trydan a ddefnyddir yn y Llyfrgell gan y peiriannau a'r offer a ddefnyddir i gynnal yr amodau amgylcheddol yn yr ardaloedd storio. Hyd yn oed heb astudiaeth fanwl mae'n amlwg y gallai'r system bresennol o ystafelloedd beiriannau gael ei gwneud yn fwy effeithlon. Mae'r system bresennol wedi esblygu ers y 1970au gyda gwahanol ychwanegiadau i'r systemau yn cael eu gwneud. Mae'n ymddangos

bod deiliadaeth staff yr adeilad yn cael effaith gymharol ymylol ar y defnydd o ynni: roedd y defnydd ym mis Mawrth - Mai yn 2019 yn 616kwh, ac yn 2020 yn ystod y cyfnod clo roedd yn 613kwh.

Mae'r cyfartaledd treigl ar gyfer nwy yn gymharol sefydlog ers 2015. Mae boeleri nwy'r Llyfrgell oddeutu 10 oed, ond maent yn dal i fod yn gymharol effeithlon.

Mae'r goleuadau yn y Llyfrgell wedi eu huwchraddio'n raddol i Thorlux Smart Lighting sy'n defnyddio ond ychydig iawn o ynni gan eu bod yn gweithio ar synwryddion.

Mae gan y Llyfrgell 80KW o gapasiti solar ffotofoltäig wedi'i osod yn Nhrydydd Adeilad y Llyfrgell ac mae hyn yn cynhyrchu tua 40kwh y flwyddyn. Mae hon yn system lwyddiannus ac mae'n dangos bod PVs yn opsiwn ymarferol ar gyfer cynhyrchu ar y safle. Mae bwriad gosod mwy o baneli ar do fflat y trydydd adeilad, toeon Storfa 1 a 2 a tho Ystafell Ddarllen y Gogledd. Mae CADW'n hapus gyda'r bwriad yma gan na fyddai modd gweld y paneli am fod y toeon i gyd yn gwynebu ar i mewn.

Mae'n annhebygol y bydd unrhyw drydan dros ben i fynd yn ôl i'r "grid", gan fod y Llyfrgell yn bwriadu ei storio a'i ddefnyddio yn ôl yr angen. Mae'r Brifysgol wedi gosod paneli ffotofoltaig mewn cae cyfagos, ond maent yn defnyddio'r cyfan o'r trydan sy'n cael ei gynhyrchu, ond cynigiwyd y dylai'r Llyfrgell gychwyn trafod gyda'r ysbty a'r brifysgol i weld os byddai modd bod yn rhan o brosiect mwy i brynu tir at y dyfodol i osod mwy o baneli ffotofoltaig ar y cyd.

Nododd Mark mai ei uchelgais oedd sicrhau fod y Llyfrgell yn zero carbon erbyn 2030, ac roedd yn ffyddiog y byddai modd cyflawni hyn.

Diolchodd y Llywydd i Mark am ei adroddiad, a'i ganmol ar ei uchelgais. Yn dilyn ei gyflwyniad, cytunodd yr Ymddiriedolion y dylid cael rhaglen gyfathrebu gyhoeddus yn nodi'r hyn sydd wedi ei gyflawni ar yr adeilad, a'r gwaith sydd ar y gweill i'w wneud yn zero carbon erbyn 2030. Diolchwyd hefyd i David Michael am y papur ar ddatgarboneiddio, ac i'r ddau ohonynt am eu gwaith yn sicrhau fod y rhaglen gyfalaf wedi mynd rhagddi cystal yn ystod y cyfnod clo.

Mi fydd fideo o'r gwaith ar yr adeilad yn cael ei gylchredeg i'r Ymddiriedolion yn dilyn y cyfarfod heddiw.

GADAWODD STEFFAN ROBERTS Y CYFARFOD AM 12.00.

2.2 Adolygiad Teilwredig – Cynllun Gweithredu

Mae'r Cynllun Gweithredu yn ffrwyth gwaith ar y cyd rhwng y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru - mae'n ddogfen fyw fydd yn cael ei diweddarau'n rheolaidd. Mae'r cynnydd yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad ar ran y Bwrdd, ond hefyd gan y Llyfrgell a CyMAAL yn eu cyfarfodydd chwarterol, a gan yr Uned Cyrff Cyhoeddus.

Nododd y Prif Weithredwr fod y cynllun yma yn mynd i'r afael ag argymhellion yr Adolygiad Teilwredig, ond fod yna faterion pwysig eraill i'w crybwyll hefyd sy'n cael eu cynnwys yn yr Adolygiad, ond nad ydynt yn ffurfio rhan o'r argymhellion. Mae crynodeb o'r materion yma i'w gweld yn llythyr Ellen Donovan, Cadeirydd y Pwyllgor Herio, at Aled Eurig ar 24 Mehefin 2020, a byddwn yn mynd i'r afael â'r materion yma yng Nghynllun Strategol 2021 – 2026 a'r Cynllun Gweithredu.

Gofynnodd y Prif Weithredwr i'r Ymddiriedolion ystyried dau beth, sef;

1. Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu
2. Yng nghyd-destun blaenoriaethu'r gwariant i gyflawni'r argymhellion, cytuno mewn egwyddor i'r cyfeiriad sy'n cael ei osod, **nid** i'r gwariant ei hun - mi welir rhestr o'r gwariant arfaethedig yn yr atodiad i eitem 5.1. Bydd cynlluniau busnes yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn y lle cyntaf i nifer o elfennau o'r gwariant, ac wedi hynny i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 7 Mai.

Eglurodd y Trysorydd fod y Pwyllgor Cynllunio Ariannol, mewn cyfarfod arbennig ar 22 Mawrth, wedi trafod y cynllun gwariant, a'r buddsoddiad o £750k i weithredu'r argymhellion. Yn yr atodiad i eitem 5.1, fe welir fod y gwariant yn £850k; £460k yn y flwyddyn gyntaf, a £390k yn yr ail flwyddyn. Roedd y Trysorydd am bwysleisio fod y Pwyllgor wedi nodi ymrwymiad o'r £100k ychwanegol o'r cronfeydd preifat, ond byddai angen trafodaeth bellach ar yr ymrwymiad yma cyn dod i benderfyniad, ac y byddai hynny'n digwydd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Mehefin.

Mae angen hefyd buddsoddiad o £442k ar gyfer cynlluniau trawsnewid digidol ac mae'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol wedi gofyn am gynllun busnes manwl wedi ei gostio sy'n rhoi dadansoddiad o'r ffigwr yma ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Er bod peth pryder ynglŷn â sut i ariannu'r argymhellion tu hwnt i'r ail flwyddyn, pleidleisiodd 12 o blaid cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu, a chytuno mewn egwyddor i'r cyfeiriad sy'n cael ei roi yn yr atodiad ar y gwariant i weithredu'r argymhellion, gyda Steve Williams yn atal ei bleidlais.

2.3 Lansio Cynllun Strategol 2021 - 2026

Cafwyd diweddariad gan Rhian Evans.

Mae gwaith ar y gweill i ganfod cwmni i ymgymryd â'r gwaith o hyrwyddo lansiad y Cynllun Strategol yn Ebrill a Mai, ond mae hyn wedi profi'n heriol. Gwahoddwyd pum cwmni i ymgeisio am y gwaith ac mae'r pump wedi gwrthod ar y sail eu bod nhw'n methu ymdopi â'r holl waith sydd wedi dod i'w rhan yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Byddwn yn parhau i chwilio am rywun i wneud y gwaith ar ein rhan, ond os na fyddwn yn llwyddiannus, bydd rhaid ystyried sut y medrwn ni ymgymryd â'r gwaith ein hunain.

Y bwriad yw cael lansiad rhithwir meddal cyn diwedd Ebrill ac yna un llawer mwy rhyw bythefnos ar ôl etholiadau'r Senedd.

2.4 Diweddariad ar y Broses Ailstrwythuro

Mae'r broses ailstrwythuro i ddelifro'r Strategaeth newydd yn mynd yn ei blaen, ac ar hyn o bryd, mae'r Tîm Gweithredol yn ystyried y sylwadau sydd wedi dod i law gan staff a'r undebau. Cafwyd cyfarfod adeiladol iawn efo'r Undebau lle nad oedd gwrthwynebiad i'r strwythur arfaethedig lefel uchel mewn egwyddor ond bydd angen trafodaethau ar ôl Pasg ynglŷn â manylion adrannau ag isadrannau newydd.

O'r adborth sydd wedi dod i law cytunwyd bod angen sefydlu prosiectau trawsnewid mewn 6 ardal benodol, er mwyn sicrhau bod y ffwythiannau gwaith yn eistedd yn y lle cywir ac yn rhedeg yn llyfn o ran prosesau gwaith. Y 6 ardal fydd:

- Gwasanaeth y Desgiau ac Ymholiadau
- Ffwythiannau Clyweledol, Digidol, Ymgysylltu a'r Archif Ddarlledu
- Cynnal Casgliadau – Cyrchu a Chadw, Rheoli Storfeydd a lleoli casgliadau
- Datblygu'r We, Mynediad Digidol a Marchnata
- Pen Dinas
- Tîm Gweithredol, Grŵp Cyflawni a Swyddfa'r Llyfrgellydd

Bydd y prosiectau hyn yn cychwyn yn syth wedi'r Pasg gan anelu at gael cytundeb ar y strwythurau erbyn diwedd Mai, a gweithredu'r symudiadau yn raddol wedi hynny.

2.5 Llythyr Amodau Llywodraeth Cymru

Mae'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad a'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol eisoes wedi trafod y llythyr yn fanwl mewn dau gyfarfod arbennig a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos ddiwethaf.

Nododd y Prif Weithredwr y bydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ym mhen y rhawg i ddweud fod y Llyfrgell yn barod i ymrwymo i'r telerau yn y llythyr, a hynny am gyfnod penodol, ac yn amodol ar drafodaethau pellach yn dilyn etholiadau'r Senedd. Mynegwyd pryder ynglŷn â Llywodraeth Cymru yn gosod telerau o'r fath ar gorff hyd braich sy'n elusen gofrestrdig, a phwysleisiwyd fod rhaid osgoi unrhyw wrthdaro posibl rhwng statws y Llyfrgell fel elusen a'i statws fel corff a noddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r llythyr yn gofyn i'r Llyfrgell oedi'r ymgynghoriad ar y Cynllun Pensiwn, a thrafodwyd hyn yn fanwl gan y Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn ei gyfarfod ar 22 Mawrth. Argymhellwyd oedi'r ymgynghoriad tan ddiwedd y flwyddyn galendr presennol, ond y dylid parhau i wneud gwaith ymchwil pellach ac ymgynghori gyda'r cynghorwyr pensiwn a'r actwari ar opsiynau amgen sydd ar gael i'r Llyfrgell eu hystyried. Cytunodd yr Ymddiriedolion yn unfrydol i'r

argymhelliad yma, a bydd y Prif Weithredwr yn cynnwys hyn yn ei ymateb i Lywodraeth Cymru.

Mi fydd y Prif Weithredwr yn rhannu ei ymateb gyda'r Ymddiriedolion cyn ei anfon at Lywodraeth Cymru.

Adran 3 Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

Yn ogystal â'r materion sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad, ychwanegodd y Prif Weithredwr fod y Llyfrgell yn ddiweddar iawn wedi cael cynnig archif Harry Secombe gan ei fab; mae canmlwyddiant Harry Secombe yn 2021, ac mi fydd cyfle i roi cyhoeddusrwydd i hyn yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Mi fydd staff yn cychwyn dychwelyd i weithio yn yr adeilad ar 24 Mawrth, a disgwylir croesawu darllenwyr yn ôl ar 12 Ebrill.

Bwrdd Prosiect yr Archif Ddarlledu Genedlaethol

Cafwyd diweddariad gan Quentin Howard, sy'n cynrychioli'r Ymddiriedolion ar Fwrdd Prosiect yr Archif Ddarlledu Genedlaethol, a nododd fod rhoi caniatâd i gychwyn yn gysylltiedig â'n partneriaeth gyda Chanolfan y Mileniwm a phrydlesï'r Canolfannau Clip, ond cafwyd sicrwydd bod cynnydd boddhaol yn y ddau faes yma. Gofynnwyd i'r eitem yma gael ei gosod fel eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd at y dyfodol.

Gŵyl y Gelli

Nododd Owain Roberts fod trafodaethau'n parhau; cynigiwyd digwyddiad i'r brif wyl eleni, ond ni chafodd ein cynnig ei dderbyn. Byddwn, yn lle hynny, yn noddi digwyddiad yn y brif wyl, ac yn edrych at gael presenoldeb yno yn 2022.

Arddangosfeydd a Digwyddiadau

Mae'r atodiad i adroddiad y Prif Weithredwr yn cynnwys crynodeb ddrafft o'r cynlluniau sydd ar droed ar gyfer rhaglen arddangosfeydd y Llyfrgell yn ystod 2021 a 2022. Mi fydd agweddau digidol yn rhedeg ochr yn ochr â'r digwyddiadau/arddangosfeydd hyn, a bydd cyfle i arbrofi ymhellach gyda digwyddiadau rhithiol yn ystod y flwyddyn.

GADAWODD GWENLLIAN LANSDOWN DAVIES A MIKE CAVANAGH Y CYFARFOD AM 1.00

Adran 4 Cydymffurfiaeth a Risg

4.1 Cofrestr Risg Corfforaethol

Cyflwynwyd y Gofrestr gan Emyr Phillips, sydd wedi ei diweddarau yn sgil derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Nid oedd unrhyw gwestiynau na sylwadau ar gynnwys y Gofrestr.

Adran 5 Materion Ariannol

5.1 Cyllideb Ddrafft 2021 - 2022

Yn dilyn derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, trafodwyd y gyllideb ddiwygiedig drafft yma yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 22 Mawrth.

Cafwyd diweddariad gan David Michael, a nododd fod yr adroddiad ar y gyllideb wedi ei baratoi er mwyn asesu rhagolygon ariannol tymor canolig y Llyfrgell. Mae atodiadau B i E yn yr adroddiad yn dadansoddi'r sefyllfa ariannol a ragwelir rhwng 2021/22 a 2025/26. Mae'r cyfnod 2021/22 – 2023/24 wedi'i gymhlethu rywfaint gan y gofyniad i symud cyllid ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r nesaf. Fodd bynnag, erbyn 2024/25, mae'n ymddangos y bydd y gyllideb barhaus yn cydbwysu i raddau helaeth, os bydd y rhagdybiaethau y mae'r gyllideb yn seiliedig arnynt yn troi allan i fod yn rhesymol.

Gan fod y broses ailstrwythuro yn parhau, mae'n amhosib gosod ffigwr pendant ar y costau, ond mi fydd y gyllideb yn cael ei hadolygu a'i diweddarau unwaith bydd y costau terfynol yn hysbys.

Mae cyllid o £750k wedi ei neilltuo i weithredu argymhellion yr Adolygiad Teilwredig, a hynny am gyfnod o ddwy flynedd; bydd angen trafodaethau ar sut y bydd modd cyllido unrhyw gostau wedi'r cyfnod hynny ac unrhyw effaith ar y gweithlu.

Cafwyd cadarnhad gan y Tîm Gweithredol fod y cyllid o £1m erbyn hyn wedi ei gadarnhau mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru yn y llinell sylfaen, ond ei bod nhw'n methu ymrwymo'n fwy na hyn gan y bydd llywodraeth newydd mewn lle ar ôl mis Mai.

Mi fydd David Michael yn adolygu'r gyllideb i ystyried costau'r ailstrwythuro, ac ar gais y Pwyllgor Cynllunio Ariannol, bydd hefyd yn cynnwys effaith unrhyw ddyfarniadau cyflog rhagdybiedig, a chyflwyno fersiwn ddiwygiedig o'r gyllideb i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 18 Mehefin, ac yn dilyn hynny, bydd yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd. Diolchwyd i David am ddrafftio'r gyllideb ddiwygiedig a'r papur atodol.

5.2 Cyfrifon Rheoli Chwefror 2021

Cyflwynwyd y cyfrifon gan Emyr Phillips.

Y canlyniad a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yw gwarged yn yr ystod o £250k i £350k yn seiliedig ar ddyfarniad cyflog cyfunol 2020-21 o 2.5% a chyfraniad i'r cynllun pensiwn o tua £800k. Dim ond ffigyrau dangosol yw'r rhain ar hyn o bryd a gallant amrywio yn dibynnu ar wariant nad yw'n staff a'r gofyniad i aros o fewn y terfyn cario arian parod fel Grant Cymorth a dderbyniwyd ymlaen blyneddol o 2%.

Mae'r gwaith wedi'i gwblhau i raddau helaeth ar gronfa ddata Enlli (gwerth £400k) ac mae'r proffil gwariant ar gyfer y rhaglen cyfalaf adeiladu wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r oedi yn gynharach yn y flwyddyn. Mae'r Llyfrgell ar y trywydd iawn i wario swm llawn y grant cyfalaf yn 2020-21.

Adran 6 Adroddiadau o Bwyllgorau

6.1 Cofnodion Drafft Panel Ymgynghorol Adeiladau 22.01.21 a 12.03.21

Nododd y Cadeirydd, Liz Siberry, fod y gwaith ar yr adeilad sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod clo i'w ganmol, a diolchwyd i Mark Stevens am hwyluso hyn.

Nid oedd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau ynglŷn â chynnwys y cofnodion.

6.2 Cofnodion Drafft Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad 05.02.21

6.5 Cyfarfod Arbennig Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad 19.03.21

Nododd y Cadeirydd, Meri Huws, y bydd Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth y Llyfrgell yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yng nghyfarfod 7 Mai. Mi fydd Cynllun Gweithredu'r Adolygiad Teilwredig yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor yma at y dyfodol, a bydd craffu a monitro cyson arno, ac adrodd i'r Bwrdd.

6.3 Cofnodion Drafft Cyfarfod Arbennig Pwyllgor Cynllunio Ariannol 09.02.21

6.6 Cyfarfod Arbennig Pwyllgor Cynllunio Ariannol 22.03.21

Nododd y Cadeirydd, Lee Yale-Helms, fod y materion oedd angen sylw eisoes wedi eu trafod, ac awgrymodd y dylid gohirio cyfarfod nesaf y Pwyllgor oedd i'w gynnal ar 16 Ebrill, a chario unrhyw fusnes ymlaen i gyfarfod 18 Mehefin.

6.4 Cofnodion Drafft Pwyllgor Archwilio a Risg 19.02.21

Cyflwynwyd y cofnodion gan Lee Yale-Helms, oedd wedi cadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd, Hugh Thomas. Nodwyd bod y Tîm Gweithredol yn paratoi adroddiad ar drothwyau tendrau sengl, fyddai'n cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 30 Ebrill.

GADAWODD CARL WILLIAMS Y CYFARFOD AM 1.30

Adran 7 Unrhyw fater arall

7.1 Cylch Busnes 2021

Yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth yn unig.

7.2 Penodiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolion

Cyhoeddodd y Llywydd fod pump Ymddiriedolydd newydd wedi eu penodi, sef Susan Davies, a'r Athro Elaine Treharne (penodiadau'r Llyfrgell), a Dr Janet Wademan, Lydia Rumsey a David Hay (penodiadau gweinidogol). Bydd y pump yn cychwyn ar eu tymhorau ar 1 Ebrill 2021.

Cadarnhawyd hefyd aelodaeth y Pwyllgorau Sefydlog a'r Panel Adeiladau o 1 Ebrill 2021;

Archwilio a Risg - Janet Wademan, Cadeirydd, Lydia Rumsey a Gwenllian Lansdown Davies (cymeryd lle Mike Cavanagh) yn ymuno fel aelodau.

Cynllunio Ariannol – Elaine Treharne

Llywodraethiant a Pherfformiad - Susan Davies a David Hay

Panel Ymgynghorol Adeiladau – Mike Cavanagh, Cadeirydd a Liz Siberry yn ymuno am ddwy flynedd fel aelod cyfetholedig.

I sicrhau parhad ym musnes y Bwrdd ar adeg heriol i'r Llyfrgell, cytunodd yr Ymddiriedolion mewn sesiwn gaeedig yn gynharach y dylid ymestyn cyfnod Lee Yale-Helms fel Trysorydd am gyfnod o ddwy flynedd o 1 Awst 2021 tan 31 Gorffennaf 2023.

Nododd Meri Huws fod Llywodraeth Cymru wedi ymestyn ei chyfnod fel Llywydd dros dro tan 31 Mawrth 2022.

I orffen, diolchodd y Llywydd i'r pum aelod oedd yn gorffen am eu hymrwymiad a'u hymroddiad i'r Llyfrgell dros nifer o flynyddoedd, yn enwedig yn ystod y cyfnodau heriol. Ategwyd hyn gan y Prif Weithredwr, gan ddiolch iddynt oll am eu cefnogaeth iddo ef yn bersonol, y Tîm Gweithredol a'r staff, a diolchodd hefyd i Meri Huws am ymgymryd â rôl y Llywydd dros dro, gan sicrhau arweiniad cadarn i'r Llyfrgell wrth iddi fynd i'r afael â heriau'r cyfnod nesaf.

**** DIWEDD Y CYFARFOD AGORED ****